WG35 S 150

# MARWNAD,

ER

## COFFADWRIAETH

AM

## WILLIAM POWELL,

O'R

## HEN GASTELL, PENYBONTAROGWR,

YN SIR FORGANWG,

Yr hwn a hunodd yn yr Arglwydd, Awst, 1af 1829. Yn 73. oed; wedi proffesu proffes deg droes fwy na 50 mlynedd; a chyflawni yn ddiwyd ac yn ffyddlon dros 39 mlynedd o hyny, ddyledswyddau blaenor yn y ganghen honn o eglwys Crist ag sydd yn cyfarfod yn yn y lle uwchod, mewn cyssylltiad a'r Trefnyddion Calfinaidd.

Matt. XXV. 21. "Da, wâs da a ffyddlon: buost ffyddlon ar y chydig, mi ath osodaf ar lawer: dôs i mewn i lawenydd dy Arglwydd.

GAN DAFYDD THOMAS.

*PENYBONT.*

[redacted]

CASTELL-NEDD: ARGRAFFWD GAN F. FAGG.

1830

XRCS 3 132 xx

## MARWNAD.

MAE galar gwilofain i'w glywed,
Yn nyffryn yr esgyrn o hyd:
Er pan cawd y codwm yn Eden
'Cheir braidd ond y trallod o'r byd:
Cael 'madael â'r ffryns o'r anwyla,
A'r tadau mwyn tyner o'r tŷ:
'Dall neb wneud y golled i fynu
Ond Jesu 'r Eiriolwr sy fry.

2 Ar foreu dydd Sadwrn, yn syden
'Daeth newydd annedwydd i ni:
Gwaith madael a Phowell hoff wiwlân
Bù'n achos mawr riddfan i mi.
Ac hiraeth sydd etto'n fy 'nghalon,
A minnau dan gymmaint o gôl,
Rhag ofn n'adawodd e yma
I'r fintai un fantell yn ôl.

3 Gwr cynnes, ac addas ei brofiad
I ddwyn y gymdeithas ymlaen,
A'i ysbryd yn friw yn wastadol,
A'i enaid yn danbaid o dân.
Yng 'ngwinllan ei Arglwydd yn ffyddlon,
Yn porthi 'r mamogiaid a'r ŵyn,
'Ble cair, yn yr eglwys, ei debyg,
Mor gyflawn ei ddawn i gŷd-ddwyn?

4 Cymmerodd y iau yn ei ieuenctid;
Fe' i cariodd er gwynfyd a gwae;
Trwy edrych yn ddyfal ar Iesu
Ca's nerthol gynnorthwy i barhâu.
Fe dd'wedai 'r munudau diweddaf,
"Er cymmaint r'aberthau a ga'd,
Un Iesu yn niwedd yr oesoedd,
A gyflawn foddlonodd y Tâd,

5 Ti eglwys Hèn Gastell, gèst golled,
'Does undyn all ddwedyd ei faint;
Ac yntau ddiangodd o'th ganol,
Rhagorol, anfeidrol ei fraint,
I blith y fâth dyrfa 'does darfod
Adnabod Duw hynod ei hun,
Lle nid oes na gwewyr, na gofid
Na blinfyd, na bloeddiau 'rhai blin.

6 O cymmer di genad fy enaid
Ar adain i hedeg i'r lan,
A gofyn i POWELL sydd yno,
Oes groeso i'r truan a'r gwan?
Tebygwn, y clywn yr attebiad
Yn seinio trwy gyrrau'r holl wlâd,
"Fe olchir, fe wysgir, fe gannir
Credynwŷr, trwy rinwedd y gwaed".

7 Ffarwel i ti WILLIAM, mi wela'
Nad elli gŷd-deimlo â ni nawr;
Mae'n dda i ni feddwl am Iesu,
Pen llywydd y nefoedd a'r llawr.
Fe rows ei addewid i ddywad,
O gariad, i'n canol fel gŵr.
Ac felly ni rown ein hymddyried
Mai 'fe ydyw'n tarian a'n tŵr.

8 "A nerth gaffo Alis, wraig ffyddlon,"
" I dewi, fel Aaron o hŷd,
"A bod, gydâ JOB amyneddgar
"Yn ddiolchgar trwy'r tywydd y gŷd;
"I ddwedyd ar g'oedd, gydâg ELI,
" Er colli o'm mhynwes ŵr llon,
"Ewyllys yr Arglwydd a wnêler,
" Bob tymor tuag attom o'r bron."

R D

1881
1825
56
73
129



9 A gan ein bod ninnau, fel eglwys,
Fel llong heb un llyw ar y môr,
Gweddiwn am awel y'r ysbryd,
A nerth: y mae digon yn stôr.
Am gael etto flaenor fo'n gymmwys
Fel MOSES, ŵr mwyn ar y mà's.
I arwain y teilu nès cyrhaedd
I drefn Duw ryfedd ei ras.

10 Ac etto yn yr ysgol sabothol
'Mae'r plant cyn eu gollwng i ma's,
Yn para' i ddisgwyl am glywed,
Ei gynghor mor beraidd ei flâs:
Yn methi iawn gofio 'i ymadawiad
A chymmaint eu cariad a'u parch
I'r gŵr a fuasai 'n eu cymhell
I 'mofyn am noddfa 'n yr Arch.

11 O frodyr, a serchog chwiorydd,
Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw:
Ei 'wyllys ddoeth nerthol gyflawnir,
Heb gòll, ar y meirw a'r byw:
Ni chymmerth ond 'i eiddo ei hunan,
Pan aeth â 'n brawd WILLIAM o'i gûr,
Am hynny gan adael eich tristwch
Ymdrechwch yn ddewr dros y gwir.

12 Os y'ch chwi am wybod ei oedran,
Y cyfan yw saith deg a thair:
Bu haner can mlynedd o hynny
Yn ffyddlon ganlynwr Mab Mair:
Y cyntaf o Awst y gorphennodd
'Gael bod gydâ'r Llywydd gerllaw,
A deunaw can mlynedd oedd oedran
Ein Harglwydd, ac ugain a naw.

DIWEDD.

Argraffwyd gan F. FAGG, Castell-Nedd.

mia fedd ysgrifeddar